Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llaingoch
# South Stack Road
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 1LD

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Llaingoch wedi'i lleoli ar gyrion tref Caergybi, Ynys Môn. Daw tua 70% o'r disgyblion o'r ardal gyfagos, gyda'r gweddill yn teithio o rannau eraill o'r dref. Disgrifia'r ysgol yr ardal fel un sydd yn cynnwys disgyblion o gefndiroedd breintiedig a difreintiedig. Mae tref Caergybi yn cael ei hadnabod fel ardal sydd o dan anfantais economaidd. Serch hynny, mae nifer y disgyblion yn yr ysgol sydd â hawl i ginio am ddim yn llawer is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.

Mae 193 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 28 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn bedwar dosbarth yn ôl eu hoedran yn y Cyfnod Sylfaen ac yn dri dosbarth oed cymysg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Er y daw oddeutu traean o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf, ychydig iawn sy'n rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 11% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd llawer yn is na'r ganran cenedlaethol. Mae ychydig o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llaingoch yn 2012-2013 yw £3,347. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842. Mae Ysgol Llaingoch yn safle 46 o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2011. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym Mehefin 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh;
- cyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg ac mewn Cymraeg ail iaith yn dda;
- bron pob disgybl yn ymdrechu'n galed ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu;
- gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff;
- disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd;
- profiadau dysgu'n dda ac yn ysgogi diddordeb bron pob disgybl; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n ddigonol oherwydd bod:

- cydweithio agos rhwng y pennaeth, staff a llywodraethwyr yn cyfrannu'n dda tuag at waith yr ysgol;
- llywodraethwyr yn wybodus am waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol;
- yr hunanarfarniad, ar y cyfan, yn rhoi darlun clir o sefyllfa gyfredol yr ysgol; a
- gweithgareddau partneriaeth yn sicrhau manteision clir i safonau a lles disgyblion.

Fodd bynnag:

- mae diffyg uwch dîm rheoli yn cyfyngu ar allu'r pennaeth i rannu cyfrifoldebau arweinyddiaeth;
- nid oes trefniadau digon clir ar gyfer monitro effaith y cynllun datblygu ysgol;
- nid yw rôl cydlynwyr pwnc wedi'i ddatblygu'n ddigonol; ac
- nid yw prosesau hunanarfarnu yn cynnwys arsylwi ar addysgu a chraffu ar waith disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sefydlu uwch dîm rheoli a diffinio cyfrifoldebau athrawon yn gliriach

A2 Monitro effaith y cynllun datblyu ysgol ar safonau a darpariaeth yn fwy trwyadl

A3 Cynyddu gallu disgyblion i arfarnu a gwella eu gwaith

A4 Sefydlu trefn ysgol gyfan ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd pob disgybl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd ynghyd â'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Wrth ymwneud â thasgau unigol neu wrth gydweithio ar weithgareddau grŵp, mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd a chydag oedolion. Maent yn dangos hoffter tuag at lyfrau ac yn darllen gyda chywirdeb cynyddol gan dalu sylw da i fynegiant a thestun. Erbyn pen uchaf y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddealladwy gyda'r rhai mwyaf medrus yn cyflwyno darnau dychmygus a diddorol. Mae geiriau syml fel rheol yn cael eu sillafu a'u ffurfio'n gywir.

Gan mwyaf, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod eu dysgu mewn modd clir a deallus. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb a mwynhad mewn llyfrau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau megis llyfrau a gwefannau. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus i ystod eang o ddibenion. Ar draws y cyfnod allweddol, mae diwyg gwaith ysgrifenedig disgyblion o ansawdd uchel.

Mae cyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg ac mewn Cymraeg ail iaith yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad, darllen ac ysgrifennu i safon sy'n gydnaws â'u hoedran a'u gallu ieithyddol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ystod oedran yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol wrth gyd-gynllunio a datrys problemau ymarferol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddisgyblion sydd, erbyn cyfnod allweddol 2, yn gallu arfarnu eu gwaith ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn cymharu'n dda ag ysgolion sy'n wynebu'r un heriau a hefyd â chyfartaledd ysgolion cynradd Cymru. Gan mai 2012 yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer cyhoeddi data perfformiad ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ni ellir adrodd ar dueddiadau hanesyddol mewn perfformiad.

Mae perfformiad cyfnod allweddol 2 yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall. Tra bu canlyniadau Saesneg a mathemateg gan fwyaf yn y 50% uchaf o ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, bu canlyniadau gwyddoniaeth ynghyd â dangosydd y pynciau craidd yn y 50% isaf bob blwyddyn.

Nid oes patrwm o danberfformio gan fechgyn na merched yn y Cyfnod Sylfaen nac ychwaith yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol gydag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, mae bron pob un yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Mae llawer yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.

O oedran cynnar, mae llawer o'r disgyblion yn hyderus wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn arwain dysgu eu hunain wrth geisio darganfod os yw'n bosibl cymysgu dŵr gydag olew.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn gydwybodol. Serch hynny, ychydig o ddylanwad sydd gan ddisgyblion ar gwricwlwm yr ysgol.

Yn ystod tair o'r pum mlynedd diwethaf, bu canrannau presenoldeb yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion sydd â chyfran debyg o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Bu yn y 50% isaf yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio clos, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n bodloni anghenion personol ac addysgol disgyblion ac sy'n galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous yn sbarduno diddordeb disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion cyfnod allweddol 2. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd da iddynt wneud defnydd ymarferol o'u medrau cyfathrebu, rhifedd, a TGCh ar draws nifer o feysydd cwricwlaidd. Enghraifft dda o hyn yw'r astudiaeth leol a wnaed o hanes ifaciwi ym mhentref Llaingoch yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'r ffordd y cafodd profiadau dysgu'r disgyblion eu cyfoethogi gan ymweliadau aelodau o'r gymuned.

Mae lle canolog y Cwricwlwm Cymreig ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth wahaniaethol sydd ar gyfer Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith yn cryfhau medrau dwyieithog disgyblion ac yn galluogi llawer ohonynt i drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn hyderus gyda'r Gymraeg a Saesneg.

Trwy'r clwb garddio, ymgyrch beicio i'r ysgol a threfniadau ailgylchu, mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy. Mae darpariaeth briodol ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon ym mron pob dosbarth yn defnyddio amrediad eang o strategaethau addysgu mewn ffordd gelfydd ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn heriol ac yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, mae'r athrawon a'r staff cymorth yn llwyddo i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu'n dda. Er hynny, ychydig o anogaeth sydd i ddisgyblion i fynegi barn am eu gwaith a chynnig gwelliannau. Ym mhob dosbarth, caiff staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol i wella dysgu disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, mae trefniadau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion unigol, gydag athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn bwrpasol ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Fodd bynnag, nid oes trefn ysgol gyfan ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion yn rheolaidd ond nid yw'r adborth i'r disgyblion bob tro yn dangos yn ddigon clir sut i'w wella.

Mae'r adroddiadau blynyddol a ddarperir i rieni o ansawdd da ac yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd gofal yr ysgol dros y disgyblion yn dda iawn. Gwna'r staff yn siŵr bod amgylchedd cynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i fwyta'n iachus a thrwy weithgareddau corfforol niferus, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei gydlynu'n dda a'i ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn gweithredu'n effeithiol mewn achosion penodol er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae darpariaeth dda ar gyfer cefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn fuan ac yn darparu cefnogaeth addas ar eu cyfer. Mae’r gweithdrefnau sydd yn eu lle yn galluogi’r disgyblion hyn i wneud cynnydd da ac i gael mynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol. Mae gan ddisgyblion a’r rhieni rôl weithredol yn yr holl brosesau ac mae’r ysgol yn cydweithio’n dda gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus ble mae’r disgyblion yn mwynhau eu gwersi a’u gweithgareddau ac yn cael eu trin yn gyfartal a chyda pharch. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae llawer o arddangosfeydd pwrpasol a symbylus drwy’r adeilad sydd yn cynnwys enghreifftiau da iawn o waith celf. Mae rhain yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at greu amgylchedd symbylus a chwaethus. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da ar gyfer y rhan fwyaf o’r meysydd dysgu. Serch hynny, mae prinder gliniaduron a llyfrau Cymraeg addas yn llesteirio ymdrechion disgyblion ac athrawon.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae’r ysgol yn defnyddio pob gofod yn effeithiol er lles disgyblion. Mae’r ardd a’r ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd gwerthfawr a diddorol sy’n cynnig profiadau buddiol i’r plant. Mae'n hyrwyddo'u dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r cydweithio agos sydd rhwng y pennaeth, staff a llywodraethwyr yn cyfrannu’n dda tuag at waith yr ysgol. Maent oll wedi ymrwymo i lwyddiant yr ysgol ac yn rhannu gwerthoedd cytunedig ynghylch cydberthynas ac ymddygiad. Mae’r pennaeth wedi gosod strategaethau priodol yn eu lle er mwyn gwella deilliannau dysgu a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid oes uwch dîm rheoli wedi sefydlu ac mae hyn yn cyfyngu ar allu’r pennaeth i rannu cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac i ddatblygu’r ysgol ymhellach.

Mae rheolaeth dydd i ddydd yr ysgol yn effeithiol ac mae trefniadau addas ar gyfer llunio ac adolygu polisïau. Mae’r arweinwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfle i bawb a chaiff cyfraniad pob aelod staff ei werthfawrogi. Fodd bynnag, nid yw rôl cydlynwyr pwnc wedi’i ddatblygu’n ddigonol ac mae hyn yn llesteirio eu dylanwad ar ddatblygiad yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol. Maent yn wybodus am waith yr ysgol ac yn craffu data perfformiad yn ofalus er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant. Mae adroddiadau manwl y pennaeth ynghyd ag ymweliadau achlysurol â dosbarthiadau yn ehangu eu gwybodaeth ymhellach. Mae rôl llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol i'r ysgol yn datblygu'n raddol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i weithredu blaenoriaethau cenedlaethol ac mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n effeithiol. Mae codi safonau llythrennedd a rhifedd wedi'i dargedu'n briodol yn y cynllun datblygu cyfredol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae hunan arfarniad yr ysgol yn fanwl ac, ar y cyfan, yn rhoi darlun clir o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Mae adolygiadau diweddar gan yr awdurdod addysg a chan asiantaethau allanol wedi cyfrannu'n sylweddol at ddealltwriaeth yr ysgol o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella. Er bod hunan-arfarnu'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth megis dadansoddi data perfformiad, nid yw'r trefniadau monitro yn cynnwys arsylwi ar addysgu a chraffu ar waith disgyblion. Nid ydynt chwaith yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion, rhieni a'r gymuned i fynegi barn am yr ysgol.

Mae deilliannau'r broses hunan arfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun o ansawdd da, ac wedi ei seilio ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r meysydd i'w datblygu a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon clir ar gyfer monitro effaith gweithredu'r blaenoriaethau'r cynllun ar ddeilliannau dysgu ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Yn achlysurol, trefnir hyfforddiant ar y cyd gydag ysgolion cyfagos. Mae'r arfer yma wedi cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol athrawon.

Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol fel cymuned dysgu broffesiynol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae staff y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar wedi cydweithio dros gyfnod o amser yn mireinio'u cynlluniau, newid trefniadaeth dosbarth, gwella'r amgylchedd ddysgu a monitro gwaith ei gilydd. O ganlyniad, mae safonau, ansawdd addysgu'r athrawon a'r dysgu yn eu dosbarthiadau yn gyson dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r gweithgareddau partneriaeth gyda'r rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn ehangu'r dewisiadau ar gyfer disgyblion ac yn sicrhau manteision clir i'w safonau a'u lles. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn ac yn derbyn gwybodaeth fuddiol a rheolaidd am weithgareddau'r ysgol ac am gynnydd eu plant. Mae'r gymdeithas rhieni yn weithgar ac mae'r ysgol yn elwa o'r gweithgareddau rheolaidd i godi arian er mwyn pwrcasu adnoddau dysgu, megis llyfrau darllen.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau clos gyda'r gymuned leol. Mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, er enghraifft arddangos cynnyrch gardd yr ysgol yn sioe Llaingoch. Yn achlysurol, bydd aelodau o'r gymuned yn dod

i’r ysgol er mwyn rhannu eu profiadau gyda disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at gyfoethogi profiadau’r disgyblion.

Mae’r ysgol hefyd yn manteisio’n sylweddol ar gyngor asiantaethau arbenigol yr awdurdod lleol, megis y gwasanaeth seicolegol, y gwasanaethau cymdeithasol a’r therapydd iaith a lleferydd.

Mae’r trefniadau pontio effeithiol gyda’r ysgolion uwchradd leol, yn helpu disgyblion i ymgartrefu’n well yn eu hysgol newydd.

Gwna’r ysgol ddefnydd da o wirfoddolwyr o’r ysgol uwchradd a’r coleg i gefnogi addysg y disgyblion trwy wrando ar ddarllenwyr a gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion penodol o fewn y dosbarth. Maent yn cyfrannu’n effeithiol at godi safonnau disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion o fewn y clwstwr lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda trwy fanteisio'n llawn ar eu hamser a'u harbenigedd i gryfhau’r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm. Mae’r arfer o ddefnyddio arbenigedd un o’r cymorthyddion i gefnogi yn ystod gwersi addysg gorfforol ac i redeg clwb pêl droed yr ysgol yn enghraifft dda o hyn.

Mae’r trefniadau cynllunio, paratoi ac asesu yn addas a’r staff yn gwneud defnydd da o’u hamser. Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr athrawon ond nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer y staff ategol.

Mae’r ysgol yn sicrhau dyrannu’r cyllid a’r grantiau yn effeithlon ac yn briodol i fynd i’r afael â blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro gwariant yr ysgol yn gyson ac yn ofalus ac yn adolygu effaith yr adnoddau ar ddeilliannau dysgu a darpariaeth.

Mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a’r defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg ac mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn debyg i gyfartaledd ysgolion y teulu sy'n wynebu'r un heriau. Mae perfformiad yr ysgol yn y tri maes hefyd yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill â chyfran debyg o ddisgyblion a hawl i ginio am ddim mae perfformiad yr ysgol yn y 50% isaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol. Mae yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

Roedd y gyfradd a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn y tri maes yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu.

Gan mai 2012 yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer cyhoeddi data perfformiad ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ni ellir adrodd ar dueddiadau hanesyddol mewn perfformiad.

Mae cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu sy'n wynebu heriau tebyg. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (dangosydd y pynciau craidd) yn is na chyfartaledd ysgolion cynradd Cymru a chyfartaledd ysgolion y teulu. Roedd y gyfradd a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) yn y tri phwnc yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu a'r perfformiad cenedlaethol. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae perfformiad Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ymhlith 50% isaf y grŵp.

Mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf, bu canlyniadau Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 ymhlith y 50% uchaf o ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Roeddynt yn y 50% isaf yn ystod y ddwy flynedd arall. Ac eithrio un flwyddyn, bu canlyniadau mewn mathemateg ymhlith y 50% uchaf dros y cyfnod. Yn ystod y pedair blynedd, bu canlyniadau gwyddoniaeth a danghosydd y pynciau craidd ymhlith y 25% isaf ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Er bod perfformiad yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae perfformiad merched ar lefel 4, ac yn arbennig mewn Saesneg, yn rhagori ar berfformiad bechgyn. Dengys data mewnol yr ysgol ynghyd â'r perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, bod llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn y tri maes dysgu yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr**

Roedd pob un o’r 72 o holiaduron disgyblion a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol ac yn llawer uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac y cânt help gan athrawon ac oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu yn gweld eu gwaith yn anodd;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw’n iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd; a bod
- digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith.

Dywed llawer  o ddisgyblion:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith; a
- bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio..

Dywed tua hanner y disgyblion bod plant eraill yn ymddwyn yn dda ac yn eu galluogi i wneud eu gwaith.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Llenwodd 17 o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef tua 10% o deuluoedd yr ysgol. Roedd llawer o’r holiaduron yn mynegi bodlonrwydd ynghylch yr ysgol ac yn cymharu’n ffafriol â’r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed pob rhiant:

- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu’n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod yr addysgu’n dda a’r staff yn disgwyl i’w plentyn weithio’n galed a gwneud ei orau;
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach a’i fod yn derbyn cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a bod
- amrywiaeth da o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Dywed llawer  o rieni:

- eu bod yn fodlon gyda’r ysgol yn gyffredinol, bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;

- bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod athrawon yn disgwyl i blant weithio'n galed;
- bod eu plentyn yn cael yn cael ei helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a'i fod yn ddiogel tra yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol neu godi problem;
- bod eu plentyn wedi’i baratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf: a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed ychydig o rieni na chânt wybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Dilys Ellis-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Derfel Griffiths | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.